



Cynghorydd - Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

DARLLENWCH Y NODIADAU CANLYNOL YN OFALUS CYN CWBLHAU OS GWELWCH YN DDA

- Gall aelodau'r Cynllun fynegi dymuniad bod unigolyn (unigolion) a/neu fudiadau penodol yn derbyn unrhyw Gyfandaliad Grant Marwolaeth sy'n daladwy dan reoliadau 1997.
- Swm y grant marwolaeth sydd yn daladwy yw:
 - 2 x cyflog cyfartalog eich gyrfa os ydych yn aelod gweithredol o'r CPLIL; neu
 - 3 x pensiwn cronus ynghyd â'r codiadau cynyddol mewn pensiwn os ydych yn aelod gohiriedig (wedi gadael y gyflogaeth ac wedi gohirio'r budd-daliadau nes cyrraedd Oed Ymdeol Arferol sef 65); neu
 - 5 x pensiwn blynyddol llai unrhyw daliadau a wnaed eisoes os ydych yn aelod bensynwr dan 75 oed.
- Gallwch fynegi dymuniad i gynnig un neu ragor o unigolion, neu sefydliad, i dderbyn y grant marwolaeth sy'n daladwy ar achlysur eich marwolaeth. Yng nghyswllt absenoldeb Ffurflen Mynegi Dymuniad, bydd y taliad yn cael ei wneud i'ch cynrychiolwr personol h.y. eich ystâd.
- Y fantais o fynegi Dymuniad yw y bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu yn gyflym, heb orfod disgwyl sawl wythnos o bosib i'ch Ystâd gael ei gytuno. Mantais arall yw na fydd eich taliad yn cael ei gyfrif fel rhan o'ch Ystâd, gan osgoi unrhyw gyfrifoldeb Treth Etifeddiaeth.
- Fe'ch cynghorir i gadw copi o'ch ffurflen Mynegi Dymuniad, ynghyd â'r nodiadau hyn a'u cadw yn ofalus ar gyfer eich cofnodion. Tra bod yn rhaid i'r Awdurdod Gweinyddol o dan Gyfraith Pensiwn, gadw'r hawl i ddiystyru unrhyw fynegiant o ddymuniad, pwrpas y ffurflen hon yw eich cynorthwyo i wneud cynlluniau ariannol priodol rhag ofn marwolaeth gynnar.
- Gallwch ddiwygio eich mynegiant dymuniad (au) ar unrhyw adeg trwy gwblhau ffurflen arall, fydd yn diddymu unrhyw fynegiant dymuniad blaenorol. Os ydych yn dymuno diwygio unrhyw fynegiant dymuniad blaenorol cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn yn y cyfeiriad isod os gwelwch yn dda.
- Ar gyfer taliad Grant Marwolaeth yn UNIG y bwriedir y ffurflen hon ac nid oes iddi unrhyw berthnasedd i daliad pensiwn y sawl sy'n eich goroesi ar achlysur eich marwolaeth.
- Nodwch os gwelwch yn dda NAD yw Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi rhwymo yn gyfreithiol i'r ffurflen hon, oherwydd er mwyn i'r manteision treth fod yn berthnasol, mae'n rhaid i'r gronfa gadw disgresiwn llawn yng nghyswllt dyraniad eich taliad grant marwolaeth.
- **Os oes mwy nag un buddiolwr sicrhewch fod y cyfansymiau canradd yn 100% os gwelwch yn dda.**
- Ni allwch ddatgan pwy fyddai'n olynnydd pe bai eich buddiolwr enwebedig yn marw o'ch blaen. Yn yr achos yma dylech gwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth newydd.
- Os oes angen rhagor o le ar gyfer mwy na thri buddiolwr, rhowch eu manylion ar daflen ar wahân.
- Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu os ydych angen rhagor o fanylion cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Adain Bensiynau, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH



Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

Eich Manylion Personol

Enw:	Dyddiad Geni:
Rhif Yswiriant Gwladol:	
Cyfeiriad Cartref:	
	Cod Post:

Manylion Personol – Buddiolwr 1

Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Manylion Personol – Buddiolwr 2

Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Manylion Personol – Buddiolwr 3

Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Datganiad

Rydw i wedi darllen y nodiadau drosodd. Gofynnaf i Cyngor Gwynedd (yr Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd) ddefnyddio disgrisiwn llwyr wrth ystyried talu unrhyw lwmp swm budd marwolaeth sy'n ddyledus dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r unigolyn/unigolion ac/neu sefydliad(au) a enwir uchod ac (os yn fwy nag un) eu rhannu yn unol â'm mynegiant dymuniad.

Llofnodwyd:	Dyddiad:
-------------	----------